Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Cyfarfod dros Microsoft Teams

30 Mawrth 2022

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi
Claire Perrin (CP)	Swyddog Polisi
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Heddlu De Cymru	
Y Prif Uwch-arolygydd Jo Maal (JM)	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Prif Arolygydd James Ratti (JR)	Rheolwr Gweithrediadau – Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
Yr Uwch-arolygydd Martyn Stone (MS)	Pennaeth Plismona Lleol a Sicrwydd
Aelodau PALG	
Grace Krause (GK)	Anabledd Dysgu Cymru
Sara Kirkpatrick (SK)	Cymorth i Ferched Cymru
Reynette Reynolds (RR)	Oasis Caerdydd
Dave Vice (DV)	Adferiad Recovery
Aelodau Annibynnol	
Alex Drummond (AD) **(CADEIRYDD)**	Aelod Annibynnol
Samar Small (SS)	Aelod Annibynnol

	Eitem	Cynnwys
1.	**Croeso a Chyflwyniadau**	1.1 Cyflwynodd AD ei hun i'r grŵp fel y cadeirydd newydd a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol a nododd yr ymddiheuriadau. 1.2 Cyfeiriodd AD at y Cylch Gorchwyl a phwysleisiodd mai diben y grŵp oedd galluogi sefydliadau ac aelodau annibynnol o'r gymuned i ymddwyn fel cyfaill beirniadol i Heddlu De Cymru a darparu heriau grymus a chymorth adeiladol i bolisïau ac arferion. Roedd AD am annog aelodau o'r grŵp i roi sylw i'w lleisiau ac i roi sylw i leisiau'r cymunedau a'r grwpiau yr oeddent yn eu cynrychioli.
2.	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**	2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a chytunwyd nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn codi ohono.
3.	**Cydberthnasau Cymunedol ac**	3.1 Cyflwynodd JM yr eitem drwy ddarparu trosolwg cryno o'r canlyniadau o'r adolygiad panel annibynnol yn dilyn y digwyddiad. Yr argymhelliad cyntaf oedd ymgymryd ag

	Atebolrwydd yr Heddlu – Canfyddiadau adroddiad diweddar y digwyddiad ym Mayhill	ymchwiliad fforensig manwl i ddigwyddiadau'r nos ac ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc i ddarparu goruchwyliaeth a chraffu ychwanegol. Yr ail argymhelliad oedd ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a rhoi ymddiheuriad. Rhannodd JM fod hyn wedi'i wneud ar unwaith yn dilyn canfyddiadau'r panel. Rhoddodd JM sicrwydd fod dulliau gweithredu ar waith i sicrhau ei fod yn barod petai digwyddiad tebyg yn digwydd yn y dyfodol. 3.2 Rhoddodd JR gyflwyniad i'r grŵp gyda throsolwg o'r canfyddiadau o adroddiad mewn perthynas â digwyddiad Mayhill yn Abertawe a oedd yn cynnwys llinell amser manwl o ddigwyddiadau, o'r adeg y rhoddwyd gwybod am y digwyddiad yn y lle cyntaf i swyddogion yn cyrraedd y safle. Tynnodd y trosolwg sylw at yr effaith andwyol y cafodd y digwyddiad ar ddioddefwyr, y gymuned ac asiantaethau partner, yn ogystal â'r diffyg hyder mewn plismona lleol a'r portread negyddol o ardal Mayhill. 3.2 Rhoddodd JR fanylion ar sut roedd y digwyddiad yn cael ei ymchwilio iddo a'r nodau ac amcanion strategol i atal anhrefn pellach, adfer hyder mewn plismona a chwarae rhan weithgar wrth wella'r safon o fyw yn y gymuned. Amlinellodd JR y prif wersi a ddysgwyd a chamau nesaf yr heddlu a oedd yn cynnwys gweithgareddau dargyfeirio i blant, cyllid partneriaeth Abertawe Ddiogelach a gweithio'n agos gyda chynghorwyr lleol. 3.3 Holodd CP a oedd cynllun ar waith ar gyfer unrhyw bresenoldeb gan yr heddlu ar ben-blwydd cyntaf y digwyddiad. Esboniodd JR y cafwyd cynnydd mewn buddsoddiad ac adnoddau ar ffurf swyddogion a cherbydau'r heddlu yn yr ardal. Nododd fod yr heddlu'n ymgysylltu'n dda â'r gymuned i sicrhau bod digwyddiadau i'r dyfodol yn cael eu hatal. Teimlai JR yn dilyn yr adolygiad, roedd yr heddlu'n fwy parod i ddelio â digwyddiadau tebyg pe byddent yn digwydd eto. 3.4 Holodd AD a gafodd y penderfyniadau eu gwneud gan un swyddog a oedd yn meddu ar reolaeth gyffredinol ar yr heddlu ar noson y digwyddiad. Rhannodd JR fod dau swyddog allweddol ar ddyletswydd i wneud penderfyniadau, yr Arolygydd Efydd, a Rheolwr Digwyddiadau'r Heddlu, a oedd yn gyfrifol. Nododd fod y ddau yn cael eu dwyn i gyfrif mewn perthynas â'r digwyddiad a theimlwyd y bu diffyg cyfathrebu yn sgil gofynion cystadleuol. 3.5 Rhannodd JM fod y canfyddiadau adolygu dysgu annibynnol a'r sesiynau dadfriffio mewnol wedi nodi diffyg ymwybyddiaeth o sefyllfa a rhannu gwybodaeth rhwng pob comander yn ystod y digwyddiad. Ychwanegodd JM fod tensiynau cymunedol a grwpiau ymgysylltu wedi galluogi'r heddlu i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw ddigwyddiad a all greu mwy o densiynau yn y gymuned a bod gweithgareddau'n cael eu cynnal i leihau neu atal unrhyw densiynau rhag datblygu'n anhrefn ac adfer ymddiriedaeth yn y gymuned. 3.7 Gofynnodd HJJ a oedd yr heddlu wedi gwneud unrhyw waith ar ôl y digwyddiad i ddeall a oedd hyder y cyhoedd wedi newid ac a oedd y digwyddiad yn effeithio ar ymddiriedaeth ar raddfa ehangach ac nid dim ond yng nghymuned Mayhill. Rhannodd JM fod MS wedi trefnu digwyddiad ymgysylltu torfol a allai nodi'r teimlad hwn a galluogi'r heddlu i fesur adborth y cyhoedd mewn perthynas â hyder mewn plismona a pha faterion oedd yn effeithio arnynt.
4.	**Stopio a Chwilio**	4.1 Rhoddodd MS drosolwg o ddata gweithgarwch stopio a chwilio diweddar a rhannodd yr hyn yr oedd yr heddlu'n ei wneud i wella a phrofi rhagfarn ddiarwybod ymhlith staff a swyddogion. Cyfeiriodd MS at waith a wnaed gan sefydliadau allanol lle siaradwyd â 4,000 o aelodau o staff mewn perthynas â hil ac anghymesuredd. Dywedodd MS yn dilyn y

		gwaith hwn, roedd yr heddlu'n edrych ar Adran 60 a phrosesau adolygu lle'r oedd Rhingylliaid yn edrych ar ffilmiau fideo camerâu a wisgir ar y corff. 4.2 Nododd MS ers sefydlu'r Paneli Craffu ar Fideo Camerâu a Wisgir ar y Corff, lle'r oedd aelodau o'r Grŵp Cynghori Annibynnol ac aelodau annibynnol o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu yn edrych ar ffilmiau fideo a wisgir ar y corff, mae 78% o achosion a gofnodwyd wedi codi i 98%. 4.3 Dangosodd MS gyfraddau'r data anghymesuredd i'r grŵp a nododd fod y ffigur 6 gwaith yn fwy tebygol o gael eich stopio yn Ne Cymru os oeddech yn ddu wedi gostwng i 4 gwaith. Teimlai fod dal angen gwella ar ddau ohonynt. Rhannodd MS hefyd fod y cyfraddau canlyniadau cadarnhaol wedi cynyddu, a theimlodd fod hyn yn dangos bod swyddogion yn gwneud y penderfyniadau cywir wrth stopio rhywun. 4.4 Holodd AD a oedd RR yn ymwybodol o unrhyw faterion y rhoddodd defnyddwyr gwasanaeth wybod amdanynt am y defnydd o stopio a chwilio yn ei sefydliad ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Rhannodd RR nad oedd neb wedi codi unrhyw fater, ond rhannodd ei phryderon o ran effaith unrhyw rhyngweithio â'r heddlu oherwydd roeddent o'r farn y byddai'r Swyddfa Gartref yn cael gwybod am unrhyw gyswllt. Cadarnhaodd nad oedd hyn yn wir. 4.5 Holodd GK beth roedd yr heddlu'n ei wneud i fynd i'r afael â mater rhagfarn ddiarwybod ymhlith swyddogion. Nododd MS fod yr heddlu wedi treulio cryn amser gyda hwyluswyr allanol er mwyn ceisio deall safbwyntiau swyddogion a thrwy arolwg dienw, canfuwyd nad oedd 65% o'r sefydliad o'r farn fod yna broblem o ran hil. Rhannodd MS bryderon yr heddlu fod yna swm uchel o bobl a oedd yn anghytuno â chamau cadarnhaol mewn perthynas â chymorth ychwanegol i gyflawni gweithlu mwy cynrychioliadol. Rhannodd MS fod y data a'r ffilmiau mewn perthynas â stopio a chwilio yn cael eu hastudio a'u craffu arnynt o safbwynt allanol tua 8 gwaith y flwyddyn, a hynny gan grwpiau amrywiol sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned fel y Grŵp Cynghori Annibynnol ac aelodau annibynnol o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu. 4.6 Rhoddodd MS drosolwg o'r meysydd ffocws i'r heddlu, gan gynnwys prosesau dip-samplu uwch ar gyfer goruchwylwyr, sicrwydd ansawdd sy'n cynnwys adolygiadau anghymesuredd o ffilmiau fideo camerâu a wisgir ar y corff a chraffu allanol gyda'r posibilrwydd o ffurfio Panel Ieuenctid.
5.	Diweddariadau gan Bartneriaid	5.1 Cyfeiriodd SK at ddigwyddiad mewn heddlu arall mewn perthynas â merch ifanc yn cael ei noeth chwilio mewn ysgol a gofynnodd a allai'r heddlu ddarparu manylion ar sawl chwiliad personol a oedd wedi'u cynnal ac a oedd modd crynhoi'r data i gategorïau oedran, rhywedd ac ethnigrwydd. Roedd MS yn gallu dangos i'r grŵp a fyddai'r heddlu'n mynd at y data hyn gan ddefnyddio'r adnodd Cudd-wybodaeth Busnes a rhannodd fod yr adnodd yn dangos yr holl fanylion, gan gynnwys y swyddog a gynhaliodd y chwiliad. Nododd MS hefyd fod yr achosion hyn wedi'u hadolygu.
6.	UNRHYW FATER ARALL	6.1 Diolchodd AD i'r aelodau am eu mewnbwn a gofynnodd i NS gadarnhau a fyddai aelodau Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu ar gael i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

		6.2 Gwnaeth AD atgoffa'r grŵp fod modd i aelodau awgrymu neu ofyn am roi eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd.